Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Llywodraeth Cymru
# Rheoleiddio Tai

Dyfarniad Rheoleiddio

Grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf – L145

Mehefin 2018

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 i reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn perthynas â'u darpariaeth o ran tai ac mewn perthynas â materion yn ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r Dyfarniad Rheoleiddio hwn o dan adrannau 33A a 35 o Ddeddf Tai 1996.

Cyhoeddir y dyfarniad hwn yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru a'r safonau perfformio cysylltiedig.

http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/regulation/regulatory-framework/?skip=1&lang=cy

Mae'r dyfarniad yn seiliedig ar werthusiad y Gymdeithas ei hun o'i chydymffurfiaeth â'r safonau perfformiad ynghyd â gwybodaeth reoleiddiol a feithrinwyd drwy drefniadau rheoli cydberthynas cydreoleiddiol parhaus rhwng y Rheoleiddiwr a'r Gymdeithas.

**Sail y Dyfarniad**

Nod y dyfarniad hwn yw rhoi dealltwriaeth i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ei denantiaid, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o'i hyfywedd ariannol a pha mor dda y mae'n perfformio, ar adeg benodol, mewn perthynas â:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Rheolaeth Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar y dyfarniad hwn at unrhyw ddiben arall. Y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gyfrifol am ba mor gyflawn a chywir yw'r wybodaeth a roddwyd i'r Rheoleiddiwr.

Tîm Rheoleiddio Tai
Is-adran Datblygu a Rheoleiddio'r Sector Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
CF48 1UZ
e-bost: housingregulation@gov.wales

ISBN Digidol 978-1-78903-865-1
Hawlfraint y Goron 2018

# Proffil

Mae Grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf ("Cynon Taf" neu "y Grŵp") yn cynnwys y rhiant-gwmni a'i is-gwmni, Gofal a Thrwsio Cwm Taf. Crëwyd Cynon Taf ar ôl i Gymdeithas Tai Cynon Taf uno â Chymdeithas Tai Pontypridd a'r Rhanbarth yn 2008. Mae Cynon Taf yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig. Mae aelodau'r ddau Grŵp wedi'u cofrestru o dan y Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac mae ganddynt reolau elusennol.

Mae'r Grŵp yn berchen ar tua 1,829 o gartrefi ac yn eu rheoli, gan gynnwys 284 o gartrefi gwarchod/pobl hŷn a 62 o gartrefi â chymorth. Mae'n gweithredu yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Mae Gofal a Thrwsio Cwm Taf yn darparu gwasanaethau yn ardaloedd awdurdodau lleol Rhondda Cynon Taf a Merthyr, sydd â'r nod o alluogi pobl hŷn i aros yn eu cartref yn fwy cysurus, yn gynhesach ac yn fwy diogel.

## Data Ariannol Allweddol

| | **Data Hanesyddol** | | **Terfyn Cyfamod** | **Cyfartaledd ar gyfer y Sector** |
|---|---|---|---|---|
| | **2015/16** | **2016/17** | | **2016/17** |
| **Perfformiad** | | | | |
| Gwarged Gweithredu fel % o'r trosiant | 22.6% | 25.3% | dd/g | 21.3% |
| Gwarged am y flwyddyn fel % o'r trosiant | 10.7% | 12.0% | dd/g | 6.5% |
| Colled o eiddo gwag a rhent heb ei gasglu fel % o'r incwm o renti | 2.5% | 0.7% | dd/g | 2.0% |
| | | | | |
| **Cyllid** | | | | |
| Benthyciadau Sefydlog fel % o'r cyfanswm | 33% | 31% | dd/g | 74% |
| Geriad (gwerth net) | 39% | 38% | 50% | 61% |
| Sicrwydd llog | 217% | 209% | 110% | 172% |
| Mae'r balansau arian parod cyfredol a'r cyfleusterau heb eu tynnu yn ddigonol i'r Gymdeithas gwblhau'r rhaglen ddatblygu y mae wedi ymrwymo iddi. | | | | |

# Dyfarniad Reoleiddio – Statws Cydreoleiddio

## Statws Cydreoleiddio – Mehefin 2018

**Llywodraethu a Gwasanaethau - Safonol**

- Yn nodi ac yn rheoli risgiau newydd a risgiau sy'n datblygu yn briodol.

**Hyfywedd Ariannol - Safonol**

- Yn bodloni gofynion o ran hyfywedd ac mae gan y Gymdeithas yr adnoddau ariannol i ymdrin â senarios yn briodol.